**ADRODDIAD CANGEN GWEITHREDIADAU'R MÔR A PHYSGODFEYDD**

**IONAWR 2018 – MAWRTH 2018**

---

**AGOR / CAU / TRWYDDEDAU AC AWDURDODIADAU** **Andy Bradick**

- Roedd pysgodfa cregyn bylchog Cymru yn dal i fod ar agor yn ystod y cyfnod.
    - Rhoddwyd 32 o awdurdodiadau i bysgota o fewn y terfyn 6nm.
- Roedd pysgodfeydd cocos y gogledd yn Nhraeth Melynog, Traeth Lafan a Thraeth Coch yn dal i fod ar agor yn ystod y cyfnod.
    - Rhoddwyd 117 o drwyddedau.
- Pysgodfa cregyn gleision Bae ac Aber Conwy
    - Rhoddwyd 7 awdurdodiad ar 10 Medi.
- Bydd pysgodfa cocos y Tair Afon ar gau am gyfnod estynedig tan 31 Rhagfyr 2018 yn amodol ar asesiadau parhaus i weld a oes digon o stoc i agor y bysgodfa.
- Mae'r bysgodfa cyllyll môr hamdden yn Llanfairfechan a Phenmaenmawr wedi'i chau dros dro tan 31 Rhagfyr 2018.
    - Gwnaed y penderfyniad hwn ar ôl i wybodaeth newydd ddod i law gan Brifysgol Bangor sy'n awgrymu y gall lefelau cynaeafu presennol fod yn cael effaith andwyol ar y stoc ac er mwyn comisiynu, cwblhau ac adolygu arolwg priodol.

**PRIF BYSGODFEYDD**

1. **Cocos** **Barrie John / Greta Hughes**

Agorodd pysgodfeydd cocos y gogledd ar 1 Medi, gan ganiatáu cyfansymiau iach ar gyfer dalfeydd yn Nhraeth Melynog (283 o dunelli), Traeth Lafan (195 o dunelli) a Thraeth Coch (59 o dunelli). Yn Nhraeth Melynog y cafwyd y prif weithgarwch, lle mae chwe chasglwr yn casglu cocos o bryd i'w gilydd ar gyfer y farchnad fyw. Mae tua naw tunnell wedi cael ei chasglu, ac ni chafwyd unrhyw broblemau gyda'r maint glanio lleiaf na thrwyddedau. Gwelwyd un casglwr yn mynd â 100kg o Draeth Coch. Nid oes unrhyw dystiolaeth o unrhyw weithgarwch yn Nhraeth Lafan.

Mae pysgodfa'r Tair Afon wedi bod ar gau yn ystod y cyfnod. Mae'r gwelyau wedi bod yn destun patrolau rheolaidd, sydd wedi helpu i atal sawl ymgais gan y casglwyr, ond mae cocos yn cael eu dal yn anghyfreithlon o hyd o bryd i'w gilydd. Mae cocos bellach yn brin, ac mae proseswyr wrthi'n chwilio am ffynonellau o gocos. Mae prisiau uwch wedi arwain at lawer o weithgarwch anghyfreithlon yn ddiweddar. Mae sawl achos wedi arwain at erlyniad yn ystod yr wythnosau diwethaf, ac mae'r canlyniadau wedi'u nodi ym mharagraff 20.

## 2. Draenogiaid y môr — Barrie John

Unwaith eto, gwnaeth y rheoliadau sy'n ymwneud â chyfanswm y dalfeydd a ganiateir a chwotâu rwystro pysgotwyr rhag pysgota draenogiaid y môr Ewropeaidd yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth. Mae mesurau mwy llym bellach wedi cael eu cyflwyno ar gyfer gweddill y flwyddyn, gan gynnwys lleihau'r meintiau a ganiateir fesul metier gwahanol (gweler paragraff 18 isod). Mae cychod a llongau cymwys wedi cael eu hawdurdodi eto ar gyfer y tymor yn 2018.

## 3. Cramenogion — Greta Hughes

Gwelwyd mwy o weithgarwch pysgota cimychiaid â chewyll wrth i fwy o gewyll gael eu defnyddio ac wrth i'r tymor symud yn ei flaen. Fel arfer, roedd dalfeydd yn ysbeidiol ac yn cynyddu wrth i'r tywydd wella tuag at ddiwedd y cyfnod. Gwelwyd dalfeydd cychwynnol da o grancod bwytadwy ym mis Mawrth.

Gwelwyd dalfeydd rhesymol ym mhysgodfeydd corgimychiaid Bae Ceredigion, Llŷn ac Ynys Môn.

## 4. Cregyn bylchog — Barrie John / Greta Hughes

Yn ystod ail hanner y tymor, parhaodd hanner dwsin o gychod a llongau i bysgota yn y "Kaiser Box" ac wrth ymylon yr ardal gadwraeth arbennig ym Mae Ceredigion. Roedd dalfeydd yn dal i fod yn eithaf cyson ond rhoddwyd gwybod am ostyngiad disgwyliedig yn ystod yr wythnosau diwethaf. Ni welsom gymaint o gychod a llongau o'r tu allan i Gymru.

Cyfyngwyd pysgodfeydd gogledd Llŷn a gogledd Ynys Môn i gychod a llongau lleol yn bennaf, a gwelwyd dalfeydd rhesymol. Roedd yn well gan gychod a llongau yng ngogledd Llŷn sy'n gallu casglu cregyn bylchog bysgota am gregyn moch yn ystod y cyfnod. Gwnaeth casglwyr cregyn bylchog o'r tu allan i Gymru hefyd lanio drwy Gaergybi.

## 5. Cregyn y Frenhines — Greta Hughes

Esgorodd gweithgarwch treillio am gregyn y Frenhines ger gogledd Ynys Môn ar ddalfeydd boddhaol yn ystod y cyfnod, ac mae mwy o ddiddordeb yn y dull hwn o bysgota. Cafodd rhywfaint o gregyn y Frenhines a dreilliwyd eu glanio yn Aberdyfi gan gychod a llongau a oedd yn gweithio tua 20 o filltiroedd morol o'r tir.

## 6. Cregyn moch — Barrie John

Mae ein pysgodfeydd cregyn moch ymhlith ein pysgodfeydd mwyaf cynhyrchiol o hyd. Yn ystod chwarter cyntaf 2018, mae 30 o gychod a llongau o Gymru wedi bod yn pysgota yn y bysgodfa ac wedi glanio 634 o dunelli gwerth £778,000 rhyngddynt. Yn ogystal â'n cychod a'n llongau ein hunain, mae nifer fach o gychod a llongau o'r tu allan i Gymru yn pysgota y tu allan i'r terfyn o 12 milltir yn bennaf. Mae swyddogion wedi cynnal sawl archwiliad ym

mhorthladdoedd glanio ac ar safleoedd prosesu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth ar feintiau glanio lleiaf.

## ASEDAU AC ADNODDAU

7. **Llongau Patrolio Pysgodfeydd** **Mark Pole / Paul Rowley**

Mae cychod RIB wedi bod ar batrolau gorfodi, gan dargedu pysgodfeydd yn unol â chyfarwyddiadau'r Ystafell Weithrediadau yn Aberdaugleddau. Mae criwiau wedi bod yn cyflawni dyletswyddau hyfforddi a chomisiynu ar Long Patrolio Pysgodfeydd Catrin yng Nghonwy. Mae criwiau cychod a llongau wedi bod yn helpu swyddogion ar y lan gyda dyletswyddau rhynglanwol a monitro gweithgarwch glanio cychod a llongau yn ôl yr angen.

8. **Caffael cychod a llongau** **Craig Jones**

Mae Llong Patrolio Pysgodfeydd Catrin (cwch RIB ymateb brys sydd â chaban) wedi cael ei ddarparu. Mae wedi bod yn destun treialon môr helaeth ac mae bellach yn weithredol.

Mae cynnydd yn cael ei wneud ar y ddwy long fwy o faint, ac mae disgwyl i Mainstay Marine ddarparu'r ddwy long erbyn mis Medi 2018.

9. **Adolygu Iechyd a Diogelwch** **Tim Croucher**

Mae'r gwaith i roi Cynllun Gweithredu ar Iechyd a Diogelwch yr Is-adran ar waith yn mynd rhagddo, gan gynnwys gwaith i ddatblygu Asesiadau Risg a Systemau Gweithio Diogel ymhellach. Mae'r Is-adran wedi cael ei harchwilio'n ddiweddar yn erbyn safon BS OHSAS 18001:2007, ac mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol ar y gwaith a wnaed.

## RHEOLI A CHYDYMFFURFIO

10. **Cydymffurfio â'r Rheoliad Rheoli** **Barrie John**

Yn ystod y chwarter diwethaf, rydym wedi cyfrannu at raglen y DU ar ddilysu pŵer motorau, sy'n faes gwaith pwysig. Mae Erthygl 41 o'r Rheoliad Rheoli yn ei gwneud yn ofynnol i aelod-wladwriaethau archwilio eu fflydoedd yn rheolaidd. Mae sawl un o gychod a llongau Cymru wedi cael ei harchwilio hyd yn hyn, ac nid oes unrhyw broblemau i'w nodi. Rydym hefyd wedi cael trafodaethau â gwahanol berchenogion cwch neu long pan nodwyd bod pŵer y motor yn anghyson, ac rydym wedi gweithio gyda nhw i ddatrys y broblem. Bydd hyn yn parhau yn ystod 2018.

Mae'r Ystafell Weithrediadau yn parhau i fonitro symudiadau pob cwch a llong ym mharth Cymru drwy system fonitro cychod y glannau a thrwy gyflwyno data yn electronig drwy'r system gofnodi ac adrodd electronig. Mae sicrhau y caiff data eu cyflwyno o fewn yr amserlen ofynnol yn heriol o hyd ac yn cymryd llawer o amser i swyddogion gorfodi morol.

### 11. **Glaniadau Cychod a Llongau Tramor** **Barrie John**

Yn draddodiadol, gwelir nifer o gychod a llongau o aelod-wladwriaethau eraill yr UE yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn wrth i'r flwyddyn gwota newydd ddechrau. Nid yw 2018 wedi bod yn eithriad, gyda 48 o laniadau gan gychod a llongau o Wlad Belg. Mae'r tîm Gorfodi wedi archwilio sawl un o'r glaniadau hyn yn llawn er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau presennol. Nid oes unrhyw broblemau sylweddol i'w nodi.

Rydym hefyd wedi gweld nifer fach o laniadau gan y sector Eingl-Sbaenaidd wrth i gychod a llongau ystyried ymweld â physgodfeydd yn unol ag amodau eu trwydded. Unwaith eto, mae sawl un ohonynt wedi cael ei harchwilio'n llawn.

### 12. **Archwilio prynwyr pysgod** **Barrie John**

Rydym wedi parhau i weithio gyda'r diwydiant er mwyn sicrhau bod y broses newydd o ddefnyddio system electronig i gyflwyno nodiadau gwerthu yn cael ei chyflwyno'n ddidrafferth. Mae swyddogion yn parhau i ymweld â'r prif brynwyr pysgod/pysgod cregyn yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rhwymedigaeth statudol hon ac er mwyn cynnig cymorth ac arweiniad pan fydd angen. Gan fod nifer sylweddol o brynwyr yng Nghymru yn prynu pysgod/pysgod cregyn yn achlysurol ar raddfa fach, mae swyddogion wedi blaenoriaethu'r ymweliadau â'r rhain ymhlith blaenoriaethau gweithredol eraill.

### 13. **Trwyddedu Morol** **Phil Marshall**

Mae chwarter cyntaf y flwyddyn yn adeg brysur bob amser wrth i gymunedau arfordirol baratoi ar gyfer tymor y gwanwyn a'r haf. Y gwaith mwyaf nodedig sy'n cael ei wneud ar yr adeg hon yw gwaith carthu porthladdoedd, harbyrau a marinas cyn i randdeiliaid roi eu cychod yn y dŵr. Mae'r llanwau eithriadol o isel tua adeg cyhydnos y gwanwyn yn helpu'r broses garthu. Mae porthladdoedd sydd â thrwyddedau morol i wneud y gwaith hwn yn cynnwys Conwy, Aberystwyth, Dinbych-y-pysgod, Saundersfoot, Marina Neyland a Cheinewydd. Mae gan borthladdoedd mawr a dwfn Caergybi ac Aberdaugleddau drwyddedau hefyd i wneud gwaith carthu i'w cynnal.

Mae angen trwyddedau morol hefyd i gynhyrchu ynni adnewyddadwy, yn enwedig yn Ardal Arddangos Sir Benfro, sef ardal 90 cilomedr sgwâr tua 10 milltir i'r de o Sir Benfro lle y gobeithir lleoli dyfeisiau profi amrywiol er mwyn cynhyrchu ynni. Mae safleoedd profi tebyg hefyd yn cael eu hystyried yn agosach at yr arfordir ac yn nyfrffordd y Ddau Gleddau. Gall y safleoedd hyn fod yn cystadlu â safleoedd pysgota masnachol a llwybrau mordwyol, sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd cynllunio morol. Wrth i longau patrolio'r môr newydd Llywodraeth Cymru gael eu cwblhau a'u darparu tua'r un adeg ag y gwnaeth Gweinidogion Cymru dderbyn cyfrifoldeb am drwyddedu morol yn rhanbarth y môr mawr (y tu hwnt i'r terfyn o 12 milltir), rydym yn gobeithio cynnal mwy o archwiliadau mordwyol a gwneud mwy o waith monitro yn y dyfodol.

14. **Gwaith prosiect** **Tim Croucher**

**Tystysgrifau Dal Pysgod i'w Hallforio**

Mae Is-adran y Môr a Physgodfeydd ar y cyd â'r gweinyddiaethau datganoledig eraill yn paratoi ar gyfer y diwrnod cyntaf ar ôl Brexit o ran allforio cynhyrchion pysgodfeydd o'r DU i aelod-wladwriaethau eraill yr UE. Gan dybio y bydd y DU yn drydedd wlad ar ôl iddi ymadael â'r UE, bydd yn ofynnol i dystysgrifau allforio gael eu hanfon gyda chynhyrchion pysgodfeydd pan gânt eu hallforio i'r UE. Mae'r galw ar hyn o bryd am y tystysgrifau hyn yn isel ac yn dibynnu ar system bapur. Fodd bynnag, ar ôl ymadael â'r UE, bydd y galw am y ddogfennaeth hon yn cynyddu'n sylweddol i lefel sy'n golygu nad yw'n ymarferol parhau â'r fformat presennol. Mae Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig yn datblygu polisi a system weithredol er mwyn sicrhau y bydd allforwyr pysgod a chynhyrchion pysgod yn gallu cael y tystysgrifau hyn er mwyn allforio pysgod i wledydd yr UE ar ôl iddi ymadael â'r UE. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwneud yn agos â'r gwaith hwn ac yn cynnwys allforwyr o Gymru i ymchwilio i ymddygiad defnyddwyr a chynnal profion. Bydd yn cyfathrebu â'r diwydiant ac yn ei helpu i baratoi ar gyfer newid.

**Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop – Rheoli a Gorfodi**

Mae Is-adran y Môr a Physgodfeydd bellach wedi cael caniatâd i fwrw ati ar ei menter ei hun mewn perthynas â'r cais Rheoli a Gorfodi a gyflwynodd i Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop ym mis Ionawr. Mae gwaith bellach yn cael ei wneud ar sawl prosiect yn unigol ac ar y cyd â'r gweinyddiaethau datganoledig eraill. Mae prosiectau penodol sydd eisoes yn mynd rhagddynt yn cynnwys:-

- **System fonitro cychod y glannau** – I'w gyflwyno i'r fflyd dan 12m. Ymgynghorir â'r diwydiant ymhellach wrth i'r prosiect symud yn ei flaen. Disgwylir ymgynghoriad ffurfiol yn yr hydref.
- **Cofnodi dalfeydd cychod pysgota dan 10m** – Yn ogystal â rhoi data gwerthfawr er mwyn helpu i reoli stociau mewn ffordd gynaliadwy yng Nghymru, gall y prosiect hwn fod yn hollbwysig hefyd er mwyn hwyluso'r broses o fasnachu gyda'r UE ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae'n bwysig sicrhau bod y wybodaeth ddiweddaraf am ddalfeydd ar gael, gan y gall y broses o gynhyrchu tystysgrifau dal pysgod i'w hallforio (fel y nodir uchod) ddibynnu ar y wybodaeth hon. Ymgynghorir â'r diwydiant ymhellach wrth i'r prosiect symud yn ei flaen. Disgwylir ymgynghoriad ffurfiol yn yr hydref.
- **Gweithio symudol – Swyddogion gorfodi morol** – Datblygu systemau TG a chyfathrebu er mwyn helpu swyddogion gorfodi morol sy'n gweithio yn y maes.
- **Newid llwyfan y DU ar gyfer defnyddio'r system fonitro cychod** – Newid y llwyfan ar gyfer gweld data'r system fonitro cychod, a fydd yn ystyried y galw cynyddol yn sgil rhoi systemau monitro cychod y glannau ar waith.

Yn ogystal â'r ffrydiau gwaith uchod, mae'r Gangen Weithrediadau hefyd yn ymwneud â phrosiectau eraill sy'n cael eu rheoli yn y DU i ymchwilio i'r posibilrwydd o oruchwylio o'r awyr ac yn datblygu atebion technolegol arloesol ar gyfer rheoli a gorfodi pysgodfeydd môr.

## GORFODI UNIONGYRCHOL

### 15. **Ymchwiliadau ac Erlyniadau** **Barrie John**

Fel y nodwyd mewn man arall, mae cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud yn ystod y chwarter diwethaf i fynd ag achosion drwy'r llys ynadon.

Ar hyn o bryd, mae 20 o ymchwiliadau byw yn mynd rhagddynt. O'r rhain, mae disgwyl i lys ynadon Hwlffordd wrando ar bedwar ohonynt ar ddiwedd mis Mai. Mae naw achos pellach wedi cael eu cyflwyno i'w hystyried, ac mae swyddogion gorfodi morol yn gweithio ar saith ohonynt ar hyn o bryd.

Mae gwaith yn parhau er mwyn newid i broses o gyflwyno cosbau gweinyddol penodedig, a'r gobaith yw y bydd ymgynghoriad ar hyn yn cael ei lansio yn y dyfodol agos.

## RHEOLI FFLYD

### 16. **Trwyddedu cychod a llongau** **Barrie John**

Mae trwyddedu cychod a llongau yn niwydiant pysgota Cymru yn dal i fod yn flaenoriaeth allweddol. Ar hyn o bryd, mae 28 o gychod dros 10m a 383 o gychod dan na 10m wedi'u trwyddedu gennym. Rydym yn dal i weld oedi wrth gofrestru, sydd yn ei dro yn effeithio ar ein gallu i drwyddedu cychod a llongau mewn modd amserol. Rydym yn parhau i gefnogi ein diwydiant drwy sicrhau bod y rhai yr effeithiwyd arnynt yn gallu gweithio tra byddwn yn mynd i'r afael â'r oedi hwn.

Bu 129 o drafodiadau yn ymwneud â thrwyddedau yn ystod y chwarter diwethaf. Roedd 17 ohonynt yn ymwneud â dadgyfuno trwyddedau.

### **17. Rheoli cwotâu** **Mike Jones**

Yn sgil cytuno ar y ffordd y bydd y cwota'n cael ei rannu rhwng pedair gweinyddiaeth y DU yn 2018, mae'r tîm Cwota wedi bod yn ceisio sicrhau cwota ychwanegol ar y cyd â'r sefydliadau cynhyrchu a'r Sefydliad Rheoli Morol ar gyfer fflyd dan 10m Cymru. Yn gyffredinol, mae cwota misol cychod dan 10m yng Nghymru ar gyfer nifer o rywogaethau allweddol yr un fath â chychod cyfatebol yn Lloegr, os nad mwy. Ar hyn o bryd, rydym yn sicrhau cwota ychwanegol ar gyfer lledod cochion, lledod chwithig, penfreision a morgathod yn ein dyfroedd arfordirol.

### 18. **Draenogiaid y môr**

Cafodd cynnig gwreiddiol Cyngor Rhyngwladol Archwilio'r Môr a'r Comisiwn Ewropeaidd i wahardd pob dalfa o ddraenogiaid y môr ei wrthod yn ystod cyfarfod y Cyngor ym mis Rhagfyr, ac yn dilyn trafodaethau anodd iawn, cytunwyd ar derfynau dal blynyddol ar gyfer pysgota bachyn a lein a lwfansau sgil-ddalfa na ellir ei hosgoi ar gyfer rhwydi drysu ar gyfer 2018. Er y

bydd y terfynau hyn yn is na rhai'r llynedd, cytunwyd arnynt er gwaethaf gwrthwynebiad cryf iawn a'r cyngor gwyddonol bod y stoc o ddraenogiaid y môr yn nyfroedd ehangach Ewrop yn dal i fod mewn perygl mawr iawn.

Bydd y cyfyngiadau canlynol ar ddalfeydd o ddraenogiaid y môr a ddaliwyd yn anochel gan gychod a llongau masnachol yn gymwys yn 2018:

- Defnyddio treillrwydi dyfnforol – uchafswm o 100kg y mis ac 1% o bwysau'r holl ddalfeydd o organebau morol ar y cwch neu'r llong ar unrhyw ddiwrnod unigol.
- Defnyddio rhwydi sân – uchafswm o 180kg y mis ac 1% o bwysau'r holl ddalfeydd o organebau morol ar y cwch neu'r llong ar unrhyw ddiwrnod unigol.
- Defnyddio bachau a leiniau – uchafswm o bum tunnell y cwch neu long bob blwyddyn.
- Defnyddio rhwydi drysu – uchafswm o 1,200kg y cwch neu long bob blwyddyn.

Ni chaniateir pysgota draenogiaid y môr mewn unrhyw bysgodfa hamdden nac o'r lan, oni chânt eu dal a'u rhyddhau. Fodd bynnag, yn ystod cyfarfod y Cyngor ym mis Rhagfyr, addawodd y Comisiwn Ewropeaidd y bydd yr adolygiad o'r asesiad o'r stoc o ddraenogiaid y môr wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth eleni. Pan fydd canlyniad y gwaith ailwerthuso'n hysbys, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r wybodaeth ddiweddaraf ar ei gwefan. Nid yw Brwsel wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf.

19. **Gwrachod y môr** **Mike Jones**

Gweler 'Pysgodfeydd datblygol' yn y crynodeb o'r prif ffrydiau gwaith.

20. **Erlyniadau** **Barrie John**

Yn ystod y chwarter diwethaf, mae cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud i fynd â ffeiliau ymchwiliadau drwy'r llys. Cafwyd pledion euog mewn perthynas â 17 achos, sy'n dyst i ansawdd yr ymchwiliadau a gynhaliwyd. Mae'r achosion wedi cynnwys sbectrwm eang o wahanol bysgodfeydd a deddfwriaeth yr UE, y DU a Chymru. Mae crynodeb wedi cael ei gynnwys, er gwybodaeth.

| Enw'r Cwch/Llong neu'r Diffynnydd | Trosedd a Gyflawnwyd | Cyfanswm ar gyfer yr achos |
|---|---|---|
| Providing Star – FD366 | Pysgota cregyn bylchog mewn ardal waharddedig | £20,643.5 |
| Providing Star – FD366 | Pysgota cregyn bylchog mewn ardal waharddedig | £27,243.5 |
| Michael Hough | Casglu cocos o wely caeedig | £4,670 |
| Brian Arthur – M50 | Cadw cimychiaid llai na'r maint gofynnol | £2,080 |
| Anne Marie B – FD536 | Pysgota'n anghyfreithlon o fewn y terfyn chwe milltir | £12,630 |

| | | |
|---|---|---|
| Searcher – heb ei gofrestru | Is-ddeddf 30 – gormod o gimychiaid yn ogystal â chrancod bychan | £320 |
| Terry Butchers, Ryan Butchers, Joshua Harry, Luke Dark, Stefan Swistun | Casglu cocos o wely caeedig | £6766 |
| Our Heritage – MT127 | Pysgota cregyn bylchog yn anghyfreithlon o fewn terfyn chwe milltir Cymru | £11,740 |
| Bonnie Lass III – MT126 | Pysgota cregyn bylchog yn anghyfreithlon o fewn terfyn chwe milltir Cymru | £10,740 |
| Celtic – M509 | Glanio cregyn moch bychan | £1,824 |
| Karima – N96 | Troseddau yn ymwneud â'r Môr Celtaidd | £7,328 |
| Mathew Dean | Mynd â chocos o wely caeedig | £2,029 |
| Steffan Gibbon | Mynd â chocos o wely caeedig | £2,229 |
| Simon Harding | Mynd â chocos o wely caeedig | £2,029 |
| Chad White | Mynd â chocos o wely caeedig | £2,029 |
| James Davies | Mynd â chocos o wely caeedig | £2,029 |
| David Thomas | Mynd â chocos o wely caeedig | £2,029 |

Bydd y llys ynadon yn gosod dyddiadau pellach ar gyfer pedwar achos arall ar ddiwedd mis Mai.

21. **Tudalennau gwe** **Marged Jones**

- Mae strwythur a chynnwys adran *Pysgodfeydd Môr* o wefan *Y Môr a Physgodfeydd* yn cael eu hadolygu gyda'r nod o wneud gwybodaeth allweddol yn fwy hygyrch.
- Mae'r dudalen *Pysgodfa Cyllyll Môr Llanfairfechan a Penmaenmawr* wedi cael ei diweddaru er mwyn adlewyrchu'r ffaith y bydd ar gau am gyfnod estynedig.

**Atodiad 1.** Dangosyddion Perfformiad Gweithrediadau Pysgodfeydd o fis Ionawr 2018 hyd at fis Ebrill 2018

| Maes Gwaith | Gweithgaredd | Ionawr 2018 | Chwefror 2018 | Mawrth 2018 | Ebrill 2018 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gorfodi deddfwriaeth pysgodfeydd morol** | Patrolau ar y môr | 0 | 0 | 3 | 1 |
| | Archwiliadau ar y môr | 0 | 0 | 9 | 2 |
| | Archwiliadau mewn porthladdoedd | 19 | 9 | 4 | 9 |
| | Porthladdoedd yr ymwelwyd â nhw | 72 | 54 | 60 | 41 |
| | Archwiliadau o gofrestriadau prynwyr a gwerthwyr | 5 | 3 | 5 | 12 |
| **Ymchwilio i droseddau yn ymwneud â physgodfeydd môr** | Troseddau a ganfuwyd | 0 | 2 | 1 | 0 |
| | Ymchwiliadau newydd | 0 | 2 | 1 | 0 |
| | Ymchwiliadau sy'n mynd rhagddynt | 32 | 34 | 35 | 23 |
| | Rhybuddion ysgrifenedig swyddogol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Erlyniadau llwyddiannus | 5 | 0 | 11 | 0 |
| **Gorfodi'r system trwyddedu morol** | Trwyddedau morol gweithredol | 82 | 89 | 92 | 95 |
| | % y trwyddedau morol a archwiliwyd | 3 | 5 | 9 | 10 |
| | Troseddau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Ymchwiliadau sy'n mynd rhagddynt | 0 | 0 | 0 | 0 |